


# CYNLLUN GWERS CYNRADD
# MAPIO'R DAITH

O ble y daeth eich siocled? A sut y gwnaeth eich cyrraedd chi? Bydd y wers hon yn annog pobl ifanc i fyfyrio ar daith bar siocled ac ystyried yr holl bobl a lleoedd a oedd yn rhan o'i gynhyrchu. A yw ein dewisiadau fel prynwyr yn effeithio ar y daith hon? Bydd y wers hon yn eich helpu i ddod o hyd i'r ateb!

## AMCANION Y WERS:

- Gall dysgwyr ddisgrifio sut mae coco'n troi'n siocled
- Gall dysgwyr nodi'r bobl a'r lleoedd sy'n rhan o gynhyrchu ein coco
- Gall dysgwyr esbonio sut mae eu dewisiadau'n effeithio ar y bobl a'r lleoedd hyn

## BYDD ANGEN ARNOCH Y CANLYNOL:

- Cyflwyniad 'Mapio'r Daith'
- Taflen waith 'Mapio'r Daith'

## GWEITHGAREDD CYCHWYNNOL

Dylech gyflwyno'r wers drwy ddangos y sleid gyntaf ar y cyflwyniad i'r plant. Dylech ganfod yr hyn maent eisoes yn ei wybod am siocled (gallai hyn fod yn ailadroddiad cyflym os yw hyn eisoes wedi cael ei drafod mewn gwersi eraill)

- *Beth yw'r cynhwysyn arbennig mewn siocled sy'n rhoi blas siocled iddo?*
- *O ba fath o blanhigyn y mae'n dod?*
- *O ble yn y byd y daw'r cynhwysyn arbennig hwn?*
- *Beth gallai'r cynhwysion eraill fod?*

Y cynhwysyn yw coco, ac mae'n dod o'r goeden goco sy'n tyfu yn rhanbarthau trofannol y byd.

Os yw'n siocled gwyn, llaeth neu dywyll, bydd hyn yn dibynnu ar swm y coco yn y bar, a'r cynhwysion eraill sydd wedi cael eu hychwanegu. Ni does gan siocled tywyll laeth ac mae'n cynnwys mwy o goco, mae siocled llaeth yn cynnwys llaeth ac o leiaf 20% o goco. Mae gan siocled gwyn fenyn coco - sef braster hufennog y ffeuen goco.





## PRIF WEITHGAREDD

Edrychwch ar y sleidiau am y daith siocled. [sleid 1]

## NODIADAU'R ATHRO I GYD-FYND â'R POWERPOINT

[Sleid 2]

Mae gan bopeth rydych yn ei brynu, pob crys-T, pob pin, pob bar o siocled ei stori ei hun.

Gadewch i ni ddychmygu y gwnaethoch brynu bar o siocled y bore 'ma er mwyn bwyta ar ôl eich swper heno.

[Sleid 3]

Mae stori eich siocled yn mynd yn ôl misoedd neu hyd yn oed blynyddoedd cyn eich cyrraedd chi.

Roedd gan eich siocled fywyd blaenorol, a oedd yn cynnwys lleoedd pell a llawer o bobl.

[Sleid 4]

Mae'n aml wedi teithio'n bell o ble y tyfwyd y cynhwysion…rhywle fel hyn, yng nghoedwigoedd Gorllewin Affrica, gan rywun fel hyn, Thérèse. Mae'n gweithio'n gale di dyfu'r coco a gwneud bywoliaeth. Ac mae'n anodd.

…ac mae wedi cael effaith ar bawb sydd wedi chwarae rhan wrth ei gael i chi.

Weithiau, mae'r stori hon yn parhau'n hir ar ôl eich rhan. Yn yr achos hwn, yr unig beth bydd ar ôl fydd y pecynnu, ond mae hwnnw'n rhan o'r stori hefyd. Ble bydd y pecynnu'n mynd a pha mor hir y bydd yn para?

[Sleid 5]

Roedd y siocled yn perthyn i chi am ddiwrnod. Mae'r stori'n mynd yn ôl yn bellach na hynny.

A gwnaethoch chi chwarae rhan bwysig iawn yn y stori gyfan. Mewn gwirionedd, roedd eich rhan mor bwysig fel ei bod yn effeithio ar weddill y stori.

Pan fyddwch yn dewis prynu, neu beidio â phrynu, cynnyrch, rydym yn anfon neges at y cwmni a'i gwnaeth a'r siop a wnaeth ei werthu, am yr hyn rydym yn ei hoffi a'r hyn nad ydym yn ei hoffi amdano.

Fel rhywun sy'n bwyta siocled, mae'r siocled rydych yn dewis ei brynu'n llunio'r ffordd y mae cwmni'n gwneud busnes.




Felly, rhan o stori'r bar siocled hwn oedd ei fod yn perthyn i chi o'r eiliad y gwnaethoch ei brynu, nes i chi ei fwyta.

## TAFLEN WAITH

edrychwch ar y daflen waith 'Mapio taith siocled'.

I blant yn yr ysgol, argraffwch a thorrwch y fersiwn Word fel bod pob blwch ar wahân.

I blant sy'n dysgu gartref, gallwch ddefnyddio'r fersiwn sleidiau PowerPoint lle mae'r blychau wedi'u gosod ar hap.

Dylech gydweddu pob ***cam*** ag ***amser*** ac ***angen*** a'u rhoi yn eu trefn, o blannu coed coco i'r bar siocled terfynol.

### Trafodwch

Mae gennych y **gadwyn gyflenwi** siocled ar eich taflen waith.

Oeddech chi'n gwybod am goco gynt? Dyma'r hyn yr oeddech yn ei ddisgwyl? A yw'n cymryd mwy o amser i wneud siocled?

I blant su'n dysgu gartref, ysgrifennwch ddwy frawddeg isod o'r blychau sy'n cydweddu am yr hyn a ddysgwyd gennych o gydweddu'r ***cam*** i ***amser*** ac ***angen.***